**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad mewn perthynas â'r Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried y Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr** |

**Cyflwyniad**
Mae Arweiniad Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chymorth, hyfforddiant a datblygiad aelodau etholedig yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Rhan 2, Adran 2.0 yn cynnwys rhestr o bynciau ar gyfer rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer datblygu aelodau a nodir yn Arweiniad Llywodraeth Cymru, gan nodi nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr. Mae cymharydd o'r hyfforddiant a argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn erbyn yr hyfforddiant a roddir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ceredigion wedi nodi'r eitemau canlynol i'w cynnwys yn y rhaglen gynefino:

- *Hyfforddiant ar rolau penodol y gall aelodau eu cyflawni megis llywodraethwyr neu gynrychiolwyr ar fyrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub neu barciau cenedlaethol gan gynnwys briff byr ar ddiben y rôl a chyfrifoldebau'r aelod o ran rhoi gwybod i'r cyngor am ddatblygiadau ar y corff y mae'n cynrychioli'r cyngor arno, lefel y penderfyniadau a ddirprwyir iddynt a sut y gallant gael cymorth i'w cefnogi yn y rôl;*
- *Hyfforddiant ar rôl cynghorydd fel aelod lleol, dirprwyo swyddogaethau i aelodau wardiau a galwadau cynghorwyr am weithredu*

Mewn ymateb i'r arweiniad, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr i'w ystyried gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd (Atodiad A).

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | a) Cymeradwyo ychwanegu'r 2 eitem ychwanegol at y rhaglen gynefino<br>b) Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr |
| **Atodiadau:** | Atodiad A: Polisi Hyfforddiant Cynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion |
| **Dogfennau cefndir:** | Deddf Llywodraeth Leol 2000<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011<br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| | |
|---|---|
| | Arweiniad Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Enw:** | Lowri Edwards |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 29.03.2023 |